Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Chwarae Dechrau'n Deg Gelli Aur**

**Ysgol Gelli Aur**
**Orange Way**
**Penfro**
**SA71 4DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Gwener, 29 Mehefin 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Chwarae Dechrau'n Deg Gelli Aur yn darparu gofal dydd sesiynol ar gyfer uchafswm o 18 o blant dwy a thair blwydd oed.  Mae'r gwasanaeth yn darparu llefydd sydd wedi'u hariannu gan y rhaglen Dechrau'n Deg ac mae hefyd yn darparu llefydd i blant eraill sy'n talu ffioedd.  Mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu o Ysgol Gelli Aur ym Mhenfro. Mae'r cylch chwarae ar agor rhwng 9am a 11.30am a 12.30pm a 3pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol.  Mae tair sesiwn ychwanegol yn cael eu cynnig hefyd yn ystod gwyliau'r haf.  Y person cofrestredig ar gyfer y gwasanaeth yw Andrew Williams a'r personau â gofal ar gyfer y gwasanaeth, ar adeg ein hymweliad, oedd Sally Brown am bedwar diwrnod yr wythnos a Mollie Goforth am un diwrnod yr wythnos.  Darperir gofal drwy gyfrwng y Saesneg gyda Chymraeg achlysurol hefyd yn cael ei defnyddio'n rheolaidd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda ac maent yn teimlo'n gyffrous am eu chwarae a'u dysgu yn y cylch chwarae hwn.  Maent yn derbyn gofal gan staff brwdfrydig a magwrol sy'n llwyddo i fodloni eu hanghenion.  Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas i'r plant, gan gynnwys amgylchedd awyr agored ysgogol.  Mae'r gwaith o arwain a rheoli'r gwasanaeth yn briodol ar y cyfan, er bod angen gwelliannau mewn perthynas â recriwtio a rheoli staff.

### 2. Gwelliannau

Roedd yr arweinwyr wedi prynu a gwneud adnoddau newydd fel sgrin paentio clir ac adnoddau synhwyraidd.  Yn dilyn ein hymweliad cyntaf, cadarnhaodd yr arweinwyr fod gweithdrefnau hylendid gwell ar waith gan fod staff yn gwisgo ffedogau i newid cewynnau ac yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo yn unigol mewn dŵr glân.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom hysbysu'r person cofrestredig nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- cyflogaeth staff gan nad oedd yr holl staff yn derbyn goruchwyliaeth un i un yn rheolaidd

- addasrwydd gweithwyr gan nad oedd dogfennaeth lawn a boddhaol ar gael o ran gwiriadau recriwtio

Gwnaethom hefyd wneud argymhellion i'r darparwr o ran y canlynol: hygyrchedd sebon hylif ar gyfer golchi dwylo, diweddaru dau bolisi, contractau, ac ehangu cyfleoedd i blant gael bod yn annibynnol ymhellach.  Mae manylion y rhain yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu'n dda yn y cylch chwarae hwn.  Maent yn gyffrous am y gweithgareddau y maent yn eu gwneud ac yn dangos mwynhad.  Maent yn cydweithredu'n dda â'i gilydd a'r staff ac maent yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando ar eu lleisiau. Maent yn datblygu'n dda ac maent yn cael nifer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau unigol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn cael cynnig dewisiadau'n aml a gallant fod yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnynt.

Roedd y plant yn dewis y gweithgareddau yr oeddent eisiau eu gwneud yn ystod chwarae rhydd ac roeddent hefyd yn cael dewisiadau o weithgareddau â ffocws.  Er enghraifft, nid oedd un plentyn eisiau cymryd tro yn sefyll ar ris i ganu a chwifio at ei ffrindiau a dywedodd aelod o staff yn garedig, "Wyt ti'n mynd i gael tro?  Na?  Popeth yn iawn."  Pan oedd y plant yn dangos diddordeb digymell mewn gweithgareddau, byddai staff yn eu galluogi i wneud y gweithgaredd hwnnw. Er enghraifft, pan wnaeth plentyn agosáu at fwrdd lle'r oedd aelod o staff yn gwneud gweithgaredd gyda phlant eraill, gan ddweud *"peintio"*, aeth yr aelod o staff i nôl ffedog ac argymell y plentyn i ymuno. Gwnaeth plentyn hefyd fynd at aelod o staff a oedd wedi bod yn gwneud gêm lleferydd ac iaith gyda phlant penodol ac roedd y plentyn yn gallu chwarae'r gêm gyda'r aelod o staff.

Mae gan y plant lais cryf.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn fodlon ac yn ffurfio perthynas glòs â'r staff.  Maent yn ymwahanu'n hapus oddi wrth eu rhieni.

Roedd y plant yn ymlaciedig iawn yn eu chwarae a dywedant wrth y staff pan oeddent yn poeni am rywbeth.Roedd y plant yn ymlacedig iawn yn eu chwarae a dywedant wrth y staff pan oeddent yn poeni am rywbeth.  Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i aelod o staff am degan rhino yr oedd wedi dewis mewn gweithgaredd awyr agored a chafodd sicrwydd fod aelod arall o staff yn edrych ar ei ôl ac yn ei gadw'n ddiogel.  Gwelsom blant yn cofleidio'r staff ac roedd plentyn yn gallu cadw hoff degan gydag ef yn ystod amser cylch. Ymgartrefodd y plant yn gyflym ar ddechrau'r sesiwn a dywedodd rhieni wrthym fod eu plant yn ymgartrefu'n dda pan wnaethant ddechrau mynychu'r cylch chwarae.  Cafodd rhieni gyfle i ymweld â'u plant cyn bod y plant yn dechrau yn y cylch chwarae.  Dywedodd

un rhiant wrthym fod ei blentyn bob amser yn awyddus i fynd i'r cylch chwarae a'i fod yn rhedeg i mewn ar ddechrau sesiwn.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn ac yn hapus a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio gyda phlant eraill a gyda'r staff.

Roedd y plant yn dilyn cyfarwyddiadau gan y staff. Er enghraifft, gwnaethant i gyd helpu i dacluso a phan ofynnodd aelod o staff i blentyn rannu ei anifeiliaid tegan gyda phlentyn arall, fe wnaeth. Roedd y plant yn dal dwylo gyda'i gilydd a'r staff wrth gerdded i'r ardal coetir, gan gerdded yn synhwyrol. Daeth un plentyn at aelod o staff gan ddweud *"llaw"* ac ymestyn allan ati. Pan esboniodd yr aelod o staff iddo ei bod yn dal dwy law yn barod ac awgrymodd y dylai ddal llaw plentyn arall, gwnaeth hynny'n hapus. Roedd y plant yn cymryd eu tro yn ystod amser cylch a gweithgareddau "bwced sylw".

Mae’r plant yn rhyngweithio’n dda.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae gan y plant ddiddordeb mewn gweithgareddau ac maent yn dangos cyffro a balchder yn yr hyn y maen nhw'n ei wneud.

Gwaeddodd y plant "amser bwced!" yn llawn cyffro, gan redeg draw i'r cylch i ymuno yn y gweithgaredd. Roeddent yn ymgysylltu'n fawr iawn ac yn canolbwyntio ar y gweithgaredd hwn. Dangosodd rhai o'r plant gyffro mawr cyn bod y dannedd weindio yn dechrau crynu. Gwnaeth un plentyn ganu cân yr oedd y grŵp wedi bod yn ei chanu yn hapus tra oedd yn cerdded yn y coetir. Roedd y plant wedi cynhyrfu pan ddaethant o hyd i anifeiliaid yn y coetir, gan ddweud yn llawn cyffro, *"Dyma rino!"* a *"Dyma lew!*" a dywedodd un plentyn *"Waw!"*, yn llawn syfrdandod, wrth iddynt fynd o dan ganopi yn y coetir. Gwelsom fod y plant yn gwenu gyda balchder ar nifer o achlysuron, fel pan wnaethant aros eu tro i sefyll ar ris a chanu, pan oeddent yn dewis ffotograffau o'u hunain ar gyfer hunangofrestru, a phan gawsant glod gan y staff am ganu da.

Mae’r plant yn wirioneddol mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd aml i ymarfer eu sgiliau unigol a datblygu eu hannibyniaeth.

Gwelsom lawer o dystiolaeth yng nghylchgronau dysgu’r plant eu bod yn cwblhau gweithgareddau sy'n hyrwyddo datblygiad eu sgiliau, fel creu pizza, chwarae mewn glŵp ac ewyn, peintio dŵr, a choginio cacennau. Gwelsom fod plant wedi dysgu geirfa, arwyddon a seiniau ar gyfer amrediad o anifeiliaid. Gwnaeth y plant ymuno gyda'r gweithgareddau canu a chyfrif a gwnaethant ofyn ac ateb cwestiynau wrth edrych ar lyfr fel grŵp. Er

enghraifft, pan ofynnwyd i'r plant os oedd ganddynt raff sgipio, dywedodd un plentyn ei bod yn hoffi sgipio a bod hefyd ganddi *"sgwter, beic a char"*.Roedd trafodaeth gyda staff a rhieni yn dangos bod plant yn datblygu'n dda a bod y plant yn cael eu darparu â chymorth ychwanegol pan nodwyd bod ei angen. Dywedodd rhieni wrthym fod eu plant yn ffynnu yn y cylch chwarae. Roedd y plant yn mynd i'r toiled yn annibynnol ac roeddent yn gosod eu tywelion papur eu hunain yn y bin ar ôl sychu eu dwylo. Roeddent hefyd yn ceisio gwisgo eu cotiau eu hunain a'u tynnu ac roeddent yn dychwelyd y matiau yr oeddent yn eistedd arnynt yn ystod amser cylch yn annibynnol i aelod o staff. Fodd bynnag, collwyd rhai cyfleoedd i'r plant gael ymarfer eu sgiliau unigol ac annibyniaeth amser byrbryd.

Mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol yn dda.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn frwdfrydig ac yn darparu gofal cadarnhaol, gofalgar a chyson. Maen nhw'n asesu a chynllunio'n ofalus er mwyn diwallu anghenion a datblygu sgiliau'r plant unigol. Maent yn hyrwyddo ffordd iach o fyw ac maen nhw'n cadw'r plant yn ddiogel.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ac yn dilyn gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn hyrwyddo ffordd iach o fyw mewn modd gweithredol.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig cyfredol. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant. Roedd staff wedi sicrhau bod cynlluniau gofal iechyd ar waith ar gyfer plant ag anghenion meddygol penodol ac roedd ganddynt system ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o ba blant oedd ag alergeddau. Dywedodd y person â gofal wrthym nad oeddent yn rhoi meddyginiaethau a allai gael eu rhoi gan rieni y tu allan i amser sesiwn y cylch chwarae ond bydden nhw yn rhoi meddyginiaeth mewn argyfwng yn unol â chynlluniau gofal iechyd. Roedd arferion hylendid gymharol dda ar waith. Roedd y staff yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac ar ôl mynd i'r toiled. Roedd y polisi newid cewyn yn cael ei arddangos ac roedd y staff yn ei ddefnyddio, gan wisgo menig i newid cewynnau a sychu'r mat newid ar ôl ei ddefnyddio. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad, nid oedd staff yn gwisgo ffedog i newid cewynnau ac roeddent yn cynorthwyo mwy nag un plentyn i olchi eu dwylo yn yr un basn o ddŵr. Ar ein hail ymweliad, cadarnhaodd y person cofrestredig fod camau wedi'u gweithredu ynglŷn â hyn yn syth ar ôl ein hymweliad cyntaf a bod staff yn gwisgo ffedogau ac yn annog y plant i olchi eu dwylo mewn dŵr glân. Nid oedd y polisi newid cewyn na'r polisi iechyd a hylendid yn adlewyrchu'r gwelliannau hyn.

Roedd y staff yn rhoi byrbrydau iach fel ffrwythau a chracers i'r plant ac roeddent yn sicrhau bod chwarae yn yr awyr agored yn flaenoriaeth. Yn ystod ein hymweliad, roedd y plant yn chwarae yn yr awyr agored am gyfnod sylweddol, yn ardal y coetir ac yn yr ardal chwarae awyr agored. Roedd y staff hefyd yn annog y plant i frwsio'u dannedd bob dydd fel rhan o'r 'Cynllun Gwên'.

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn defnyddio strategaethau cadarnhaol ac maen nhw'n fodelau rôl da.

Roedd y staff bob tro yn gadarnhaol, yn llonydd ac yn frwdfrydig trwy gydol ein hymweliad. Roeddent yn delio â materion ymddygiad diangen mewn ffordd gadarnhaol iawn. Er

enghraifft, gwnaeth aelod o staff ddefnyddio technegau tynnu sylw pan oedd grŵp o blant yn neidio i lan ac i lawr ar y soffas lefel isel, gan ddweud mewn ffordd hwyliog, *"Dewch i wisgo ar gyfer ein taith gerdded."* Roedd aelod o staff hefyd yn cynorthwyo plentyn i rannu pan oedd eisiau rhywbeth oedd gan blentyn arall. Gwnaethom hefyd gweld aelod o staff yn dweud mewn ffordd bositif, *"Eistedd lan er mwyn cael dewis"* pan oedd plentyn yn gorwedd i lawr mewn protest gan nad ef oedd gyntaf yn y rhes i ddewis o'r sach caneuon. Clywsom staff yn defnyddio llawer o ganmoliaeth ac anogaeth. Er enghraifft, gwnaethant ddweud, *"Dyna fachgen da.Diolch, cariad"* pan oedd plentyn wedi gosod y ceir yn y blwch ceir fel y gofynnwyd iddo ei wneud a gwnaethant ddweud *"Cwrtais iawn"* pan ddywedodd plentyn *"Dim diolch"* o ran cymryd tro ar y gris. Ymatebodd aelod o staff i blentyn oedd yn canu i'w hun pan oedd yn paratoi ar gyfer gweithgaredd amser cylch gan ddweud, *"Wyt ti'n canu?Dyna ganu hyfryd!"* wrth rwbio cefn y plentyn yn ysgafn. Roedd y staff yn sylwgar ac yn mynd i'r afael â materion cyn eu bod yn cynyddu trwy sicrhau'r plant a'u helpu i ddatrys problemau. Er enghraifft, clywodd aelod o staff blentyn ar feic tair olwyn yn gweiddi ac aeth ato'n brydlon, gan ddweud, *"Wyt ti'n sownd?"Dweud 'helpa fi'.Mae popeth yn iawn.Mae dy olwyn yn sownd."* Aeth y plentyn i ffwrdd yn hapus unwaith yr oedd y broblem wedi'i datrys.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau yn dda.

### 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae staff yn asesu anghenion a chynnydd y plant yn rheolaidd ac maent yn cynllunio gweithgareddau i hyrwyddo datblygiad unigol y plant.

Roedd staff yn asesu anghenion y plant gan ddefnyddio offer asesu amrywiol, yn ogystal ag arsylwadau achlysurol ac â ffocws, pan oeddent yn cyrraedd y cylch chwarae ac yn rheolaidd yn ystod eu hamser yno. Roeddent yn cwblhau cynlluniau manwl a meddylgar ar gyfer yr holl grŵp a gweithgareddau unigol a oedd yn dangos eu bod yn cwmpasu sgiliau gwahanol. Roedd gan aelodau o staff unigol berchnogaeth dros gynllunio ar gyfer gweithgareddau lleferydd ac iaith ynghyd ag olrhain cynnydd plant allweddol. Gwelsom weithgareddau yn ystod yr ymweliad a oedd yn ategu'i gilydd ac yn rhoi cyfleoedd da i atgyfnerthu sgiliau'r plant, yn enwedig sgiliau lleferydd ac iaith. Er enghraifft, roedd gan y plant gyfle i ddefnyddio geirfa anifeiliaid mewn gweithgaredd awyr agored, wrth edrych mewn llyfr, a phan oeddent yn gwneud gweithgareddau lleferydd ac iaith unigol. Roedd y staff yn defnyddio arwyddo'n rheolaidd er mwyn cynorthwyo datblygiad iaith. Roeddent hefyd yn defnyddio'r Gymraeg yn aml. Er enghraifft: gwnaethant gyfrif nifer y plant fel grŵp yn Gymraeg ar nifer o achlysuron; gwnaethant ddefnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg i drafod y tywydd yn ystod amser cylch; gwnaethant ddarllen llyfr syml gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg; a gwnaethant ddosbarthu'r brwsys dannedd gan ddweud, *"Ble mae…"*. Roedd y rhieni yn llawn canmoliaeth ynglŷn â'r staff a dywedodd un rhiant wrthym fod y staff yn *"rhagorol"* a'u bod yn mynd *"i'r eithaf"* a *"bod dim yn ormod o drafferth"*. Dywedodd y person â gofal wrthym fod gan yr holl staff naill ai gymhwyster gofal plant perthnasol neu eu bod yn gweithio tuag at hyn. Roedd y staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant ychwanegol fel hyfforddiant mewn lleferydd ac iaith, rhyngweithio dwys a rheoli

ymddygiad.  Roeddent hefyd yn gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o fewn y cylch chwarae.  Er enghraifft, roeddent yn arsylwi i weld beth oedd cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn ei wneud pan oeddent yn ymweld i weithio gyda'r plant ac roeddent yn ymchwilio ac yn creu adnoddau i ddiwallu anghenion penodol.

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas iawn ar gyfer y plant, sy'n cynnwys ardal chwarae awyr agored ysgogol a choetir. Maent yn darparu'r adnoddau y mae eu hangen ar y plant ynghyd ag amrediad eang o adnoddau o ansawdd da. Mae ganddynt weithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn aros yn ddiogel ar gyfer y plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae gan yr arweinwyr weithdrefnau ar waith i adnabod, dileu neu leihau risgiau i'r plant.

Roedd y person â gofal wedi cynnal asesiadau risg manwl ac roedd hi'n adolygu'r rhain yn flynyddol. Gwelsom hefyd fod system ar waith ar gyfer gwneud gwiriadau iechyd a diogelwch o'r amgylchedd bob dydd. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar offer trydanol. Gwelsom hefyd fod sticer ar y boeler nwy yn y gwasanaeth a ddangosai ei fod wedi cael gwasanaeth cyfredol. Roedd system ddiogel ar gyfer cael mynediad i'r cylch chwarae a gofynnwyd i ni lofnodi llyfr ymwelwyr.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn darparu'r gofod ac adnoddau sydd eu hangen ar blant ac maent yn darparu amgylchedd awyr agored ysgogol iddynt.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad i'r ardal o goetir ar y tir lle’r oedd y cylch chwarae yn cael ei gynnal ac roedd y plant yn mwynhau ei harchwilio. Roedd y coetir naturiol yn cael ei wella gan ganopi ac ardal i'r plant gael eistedd fel grŵp. Roedd yr arweinwyr hefyd yn darparu mynediad rheolaidd i'w hardal chwarae benodedig eu hunain i'r plant, a oedd yn rhwydd cyrraedd o'r cylch chwarae. Roedd gan yr ardal hon lawr AstroTurf ac roedd arweinwyr wedi darparu mat a hambyrddau twff er mwyn i'r plant allu ymgysylltu'n gyfforddus ag adnoddau fel gweithgareddau byd bach a llyfrau, yn ogystal ag ymarfer eu sgiliau echddygol bras ar offer chwarae mawr. Roedd yr amgylchedd dan do yn llachar a chroesawgar gydag amrediad o arddangosfeydd lliwgar ar y wal, gan gynnwys gwaith crefft y plant. Roedd yr arweinwyr wedi darparu ardaloedd penodol ar gyfer dysgu o fewn yr amgylchedd, gan gynnwys ardal chwarae rôl ac ardal ddarllen groesawgar gyda seddau lefel isel cyfforddus a llyfrau a oedd yn hawdd eu cyrraedd a gweladwy. Roedd ardal toiled lachar ar gyfer y plant â thri thoiled a basn ymolchi o faint addas. Fodd bynnag, roedd y dosbarthwyr sebon wedi'u gosod ar y wal mewn safle oedd allan o gyrraedd y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas iawn ar gyfer y plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae arweinwyr yn darparu amrediad eang o adnoddau sy'n diwallu anghenion y plant.

Roedd yr arweinwyr yn darparu nifer fawr o adnoddau sy'n addas i anghenion a diddordebau gwahanol, o dan do ac yn yr awyr agored. Yn yr ardal awyr agored, er enghraifft, roedd y plant yn gallu defnyddio blociau Duplo, offer dringo â llithren, adnoddau chwarae tywod, teganau siglo, ceir y gellir eistedd arnynt, a beiciau tair olwyn. Roedd arweinwyr hefyd wedi darparu sgrin beintio glir newydd a phaentiau, yr oeddwn yn gallu gweld bod y plant yn mwynhau eu defnyddio.Roedd arweinwyr hefyd wedi darparu sgrîn beintio glir newydd a phaentiau, yr oeddwn yn gallu gweld bod y plant yn mwynhau eu defnyddio. Roeddent yn aros am gegin fwd i gyrraedd ar adeg ein hymweliad. Yn ogystal â'r adnoddau masnachol, roedd yr arweinwyr a'r staff hefyd yn darparu adnoddau naturiol a rhai wedi'u gwneud gartref. Er enghraifft, roedd y plant wedi archwilio'r amgylchedd coetir naturiol a'r tywod ac roedd ganddynt fynediad i 'fagiau teimlo' a gêm pompom er mwyn iddynt ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl. Roedd byrddau a chadeiriau o faint priodol ar gyfer y grŵp oedran oedd yn mynychu'r cylch chwarae.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau ac offer o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn gweithredu polisïau addas ac mae ganddyn nhw ddatganiad o ddiben perthnasol a llawn gwybodaeth ar waith. Maent wedi creu perthnasau priodol gyda rhieni, sy'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Maent yn adolygu a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth yn aml. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i'r prosesau recriwtio a rheoli staff.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan arweinwyr ddatganiad o ddiben ar waith ac maen nhw'n gweithredu ac adolygu amrediad o bolisïau a gweithdrefnau.

Roedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol. Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau, gan gynnwys y rhai ar gyfrinachedd, ymddygiad, amddiffyn plant, derbyniadau a newid cewynnau. Gwelsom fod y rhain yn addas ar y cyfan, er bod angen diweddaru'r polisi newid cewyn a'r polisi iechyd a hylendid ychydig yn unol â chanllawiau cyfredol sy'n ymwneud â gweithdrefnau hylendid. Dywedodd y person â gofal wrthym ei bod wedi adolygu'r polisïau yn ddiweddar a'i bod wedi rhoi cyfle i'r staff ddarllen ac ymgyfarwyddo â'r polisïau. Roedd y person cofrestredig yn bresenoldeb gweladwy ac roedd yn gweithio'n agos gyda'r person â gofal. Roedd yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ar waith yn enw'r cylch chwarae ac roedd y person cofrestredig yn hyderus fod hyn yn cynnwys yr holl weithwyr a'i fod yn cynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Gwnaeth y person cofrestredig hefyd gadarnhau bod y cofrestriad gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn enw'r ysgol hefyd yn cynnwys y cylch chwarae. Gwelsom fod rhieni wedi llofnodi contract ond nad oedd telerau ac amodau'r gofal wedi'u gosod allan yn glir.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol ar y cyfan.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth ac yn nodi a gweithredu camau i wella'r gwasanaeth.

Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau rhan un a dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth fel y gofynnwyd amdano gan AGC. Roeddent wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal manwl, gan nodi meysydd i'w gwella, a hefyd roeddent wedi nodi eu cynnydd tuag at hyn. Er enghraifft, roeddent wedi gosod targed i wella'r amgylchedd ac roeddent wedi datblygu wal gerddoriaeth a chael hyd i gyllid ar gyfer cegin fwd, er bod angen sylw pellach ar y wal gerddoriaeth yn dilyn difrod gan wyntoedd mawr. Roeddent hefyd wedi agor llefydd y telir ffi amdanynt ar gyfer plant o'r tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg pan gafodd ffiniau cod post ar

gyfer y cyllid hwn eu newid. Gofynnwyd am safbwyntiau rhieni, plant, staff ac asiantaethau sy'n ymweld er mwyn adolygu'r gwasanaeth ac roeddent yn cael trafodaethau anffurfiol rheolaidd fel tîm i werthuso'r gweithgareddau yr oeddent yn eu darparu.

Mae’r hunanwerthuso a’r cynllunio ar gyfer gwella yn briodol.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Nid oes gan yr arweinwyr weithdrefnau cadarn ar waith sy'n ymwneud â recriwtio a rheoli staff.

Gwnaethom wirio sampl o dair ffeil staff a chanfod nad oedd yr holl ddogfennaeth angenrheidiol sy'n ymwneud â recriwtio ar gael yn ystod y naill neu’r llall o'n hymweliadau. Er bod gweithdrefnau recriwtio ar waith, cadarnhaodd y person cofrestredig nad oedd wedi cymryd rhan yn y rhain ar gyfer yr holl staff ac nad oedd wedi gweld yr holl ddogfennaeth recriwtio ar gyfer y sampl o staff y gwelsom eu ffeiliau. Roedd y person â gofal yn derbyn arfarniadau a chyfarfodydd goruchwylio rheolaidd gyda swyddogion Dechrau'n Deg yn hytrach na'r person cofrestredig. Cadarnhaodd y person cofrestredig nad oedd yn cymryd rhan yn y broses hon mewn modd ffurfiol. Roedd y person â gofal yn cwblhau arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff yn y cylch chwarae ond nid oedd system ar waith ar gyfer cyfarfodydd goruchwylio un i un rheolaidd. Fodd bynnag, roedd arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd staff anffurfiol rheolaidd ac yn cynnwys y staff wrth gynllunio gweithgareddau. Roedd y person â gofal hefyd yn mynychu cyfarfodydd gyda staff o gylchoedd chwarae eraill a oedd yn darparu gofal sydd wedi'i ariannu gan y rhaglen Dechrau'n Deg.

Nid yw rheolaeth staff yn gwbl effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn gweithio gyda rhieni i ddiwallu anghenion y plant. Maen nhw wedi ffurfio perthnasau gydag asiantaethau eraill.

Roedd perthynas agos rhwng y cylch chwarae a'r ysgol lle'r oedd yn cael ei gynnal.Roedd perthynas agos rhwng y cylch chwarae a'r ysgol lle roedd yn cael ei gynnal. Roedd y person cofrestredig yn bennaeth yr ysgol hefyd. Roedd yr arweinwyr wedi rhoi trefniadau ar waith er mwyn i blant gael mynychu sesiynau pontio cyn iddynt symud i'r ysgol. Roedd y person â gofal hefyd yn cwrdd â staff yr ysgol, gyda chaniatâd rhieni, i drafod datblygiad ac anghenion y plant cyn iddynt symud. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr aelodau o staff a oedd wedi bod yn gweithio ar sail unigol gyda phlant yn gallu symud i'r ysgol i gefnogi'r plant ar gyfer eu chwe wythnos gyntaf ar ôl gadael y cylch chwarae. Gwnaethom wirio sampl o gofnodion y plant a gwelsom fod arweinwyr wedi ceisio'r holl wybodaeth berthnasol gan rieni am anghenion eu plant. Roedd y person â gofal ar gael bob dydd i drafod anghenion newidiol a datblygiad y plant gyda rhieni. Roedd y rhieni a oedd wedi cwblhau holiaduron AGC yn cytuno'n gryf fod y gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â rhieni.

Mae partneriaethau gyda rhieni'n effeithiol.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Mae angen gwneud y sebon hylif yn fwy hygyrch fel y gall y plant gael mynediad ato yn annibynnol

- Dylid diweddaru'r polisi newid cewyn a'r polisi iechyd a hylendid yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Dylid rhoi contractau eglurach ar waith, gyda chytundeb rhieni, ar gyfer y gofal a ddarperir
- Dylid ehangu'r cyfleoedd i blant fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 22 Mawrth a 17 Ebrill 2018 am gyfanswm o tua chwe awr a hanner. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio dull y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI 2) i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan y staff
- siarad gyda'r plant, rhieni, staff, y person â gofal a'r person cofrestredig
- darllen dau holiadur gan rieni
- rhoi adborth i'r person cofrestredig yn ystod ein hail ymweliad a hefyd dros y ffôn ar 8 Mai 2018

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd i blant**<br>**Gofal dydd sesiynol** |
| **Person cofrestredig** | **Andrew Williams** |
| **Personau â gofal** | **Sally Brown**<br>**Mollie Goforth** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **18** |
| **Ystod oedran y plant** | **Dwy a thair blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 9am a 11.30am a 12.30pm a 3pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol.Mae tair sesiwn ychwanegol hefyd yn cael eu cynnig yn ystod gwyliau'r haf.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **14 Ionawr 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **22 Mawrth a 17 Ebrill 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy.Mae'r gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i blant a ariennir gan y rhaglen Dechrau'n Deg.** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, nodi na diwallu gofynion y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth mewn perthynas â'r Gymraeg. Rydym yn argymell bod darparwr y gwasanaeth yn rhoi ystyriaeth i fframwaith strategol dilynol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn gofal** |

| | |
|---|---|
| | **cymdeithasol, sef 'Mwy na Geiriau…'.Fodd bynnag, lleolir y gwasanaeth hwn mewn ardal lle siaredir Saesneg yn bennaf ac mae'r staff yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg achlysurol gyda'r plant yn rheolaidd.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |